



Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Protocol Achosion Cymhleth o Gam-drin Oedolion



Cadarnhawyd gan y Bwrdd
Mehefin 2023

Protocolau a Gweithdrefnau
Is-grŵp

Dyddiad Adolygu
Mehefin 2026

Cynnwys

Tudalen

1	Cyflwyniad	3
2	Egwyddorion Cyffredinol	4
3	Atgyfeiriadau	5
4	Cyfarfod Strategaeth Gychwynnol	5
5	Gweithwyr proffesiynol y mae angen eu hysbysu	6
6	Cyfarfod Grŵp Rheoli Strategol dilynol	6
7	Grŵp Ymchwilio ar y Cyd	10
8	Grŵp Gweithredol	10
9	Mynediad at Gofnodion	11
10	Rhannu Gwybodaeth	11
11	Croesi ffiniau daearyddol a gweithredol	12
12	Diwedd yr Ymchwiliad	13

Atodiad 1

Siart lif ar gyfer Ymchwiliadau Achosion Cymhleth	15
---	----

Atodiad 2

Templed Adroddiad Cynnydd	16
---------------------------	----

Atodiad 3

Templed adnabod Oedolyn sy'n peri pryder yn yr ymchwiliad	17
---	----

Atodiad 4

Grŵp Rheoli Strategol ar gyfer Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr	18
Templed Agenda Ymchwiliadau	

Atodiad 5

Grŵp Rheoli Strategol ar gyfer Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr	19
Cylch gorchwyl Ymchwiliadau	

1. Cyflwyniad

Diffiniad

Cynhelir Ymchwiliad Achosion Cymhleth o Gam-drin Oedolion pan:

- Honnir bod nifer o oedolion mewn perygl wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso naill ai o fewn un lleoliad gofal neu wedi'u gwasanaethu gan yr un darparwr gwasanaeth (ni waeth pa asiantaeth sy'n comisiynu gofal neu a yw wedi'i drefnu'n breifat), **neu**
- Mae'n ymddangos bod grŵp o oedolion mewn perygl wedi cael eu cam-drin gan un unigolyn neu grŵp o unigolion mewn modd trefnus a thargededig, **neu**
- Mae patrwm neu themâu o gam-drin neu esgeulustod posibl gan ddarparwr gofal unigol yn dod i'r amlwg o ddata diogelu neu fonitro contractau.

Pwrpas

Pwrpas y protocol achosion cymhleth o gam-drin oedolion yw;

- Sicrhau diogelwch a lles yr holl oedolion sy'n wynebu risg, yn unigol ac ar y cyd.
- Trefnu a chydlynu ymatebion aml-asiantaeth i leihau'r risg o niwed ac amddiffyn pob oedolyn posibl arall sydd mewn perygl.

Bydd angen gwahaniaethu rhwng arfer gwael, a dylid mynd i'r afael â hyn drwy'r broses comisiynu a monitro contractau a pherfformiad darparwyr. Os oes gan yr Awdurdod Lleol achos rhesymol i amau niwed sylweddol i nifer o unigolion neu oedolion mewn perygl, ymchwilir hyn o dan y protocol achosion cymhleth o gam-drin oedolion. Fodd bynnag, gan fod gorgyffwrdd sylweddol yn y ddwy broses, bydd angen cyfathrebu effeithiol rhwng y Grŵp Aml-Asiantaeth Arweiniol a'r ALSSI (Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr), gan y gall camau gweithredu o dan y ddwy broses fod yn digwydd ar yr un pryd.

Ymdrinnir â phob pryder diogelu oedolion unigol gan ddilyn gweithdrefn ddiogelu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gweithdrefnau Diogelu Oedolion Gwent. Nid yw'r protocol ALSSI yn disodli'r gweithdrefnau hyn, ond ei fwriad yw gwella cyfathrebu a chydgyssylltu amlasiantaethol a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael pan fo amheuaeth o gam-drin ar raddfa fawr. Dylid parhau i ddiogelu unigolion ar unwaith ac ymchwiliadau i ddigwyddiadau unigol yn y ffordd arferol.

2. Egwyddorion Cyffredinol

Mae pob ymchwiliad o achosion cymhleth o gam-drin yn gofyn am gynllunio trylwyr, gweithio rhyngasiantaethol da, a rhoi sylw i anghenion lles y dioddefwyr dan sylw.

Mae rhai ymchwiliadau'n mynd yn hynod gymhleth oherwydd nifer y lleoedd a'r bobl dan sylw, a'r amserlen ar gyfer honni bod cam-drin wedi digwydd. O dan yr amgylchiadau hyn gellir sefydlu Grŵp Ymchwilio ar y Cyd (JIG) arbenigol yn ogystal â Grŵp Rheoli Strategol (SMG).

Mae pob ymchwiliad yn wahanol a gall achosion cymhleth o gam-drin ddigwydd mewn gwasanaethau dydd, mewn teuluoedd ac mewn darpariaethau cymunedol megis clybiau chwaraeon, grwpiau gwirfoddol a ffydd. Dim ond yn ystod yr ymchwiliadau y gall maint a chymhlethdod llawn y cam-drin ddod i'r amlwg. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o hyn o ddechrau'r ymchwiliad. Dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i asiantaethau sydd angen bod yn rhan o'r ymchwiliad gan gynnwys materion trawsffiniol.

Mae'r cymhlethdod yn waeth pan nad yw'r dioddefwyr honedig, fel mewn achosion hanesyddol, bellach yn byw yn y sefyllfa lle digwyddodd y digwyddiadau a/neu lle nad yw'r tramgwyddwyr honedig bellach yn gysylltiedig â'r lleoliad neu rôl cyflogaeth. Dylid ymateb i achosion o'r fath yn yr un modd ag unrhyw bryderon eraill. Mae'n bwysig canfod a yw'r troseddwr honedig yn dal i weithio gydag oedolion neu blant neu'n gofalu amdanynt.

Pan fo honiad yn ymwneud â deiliad swydd sydd â rôl benodol o fewn y gweithdrefnau hyn, rhaid rhoi gwybod am yr atgyfeiriad i reolwr arall (uwch) yn unol ag Adran 5, (honiadau yn erbyn ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth) Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019. <https://www.gwentsafeguarding.org.uk/assets/document-library/Protocols-and-Procedures/Safeguarding-allegations-and-concerns-about-practitioners-and-those-in-a-position-of-trust-protocol.pdf>

Ym mhob ymchwiliad i gam-drin wedi'i threfnu, mae'n hanfodol bod y staff dan sylw yn cynnal lefel uchel o gyfrinachedd mewn perthynas â'r wybodaeth sydd yn eu meddiant, heb beryglu'r ymchwiliad na lles yr oedolion dan sylw.

Dim ond gydag ymarferwyr sy'n berthnasol i'r ymchwiliad y dylid rhannu gwybodaeth ddilynol a gynhyrchir drwy gydol yr ymchwiliad.

Mae amddiffyn unrhyw oedolyn sy'n wynebu risg yn parhau i fod yn hollbwysig. Dylai'r ymchwiliad roi ystyriaeth ddyledus i ddyletswydd gofal ac anghenion cymorth llesiant y cyflawnwr honedig, cyfrifoldeb ei gyflogwr yw hyn fel arfer.

Bydd ymchwiliad i gam-drin trefniadol yn cael ei gynnal dan adain Bwrdd Diogelu Gwent (GSB) a dylid rhoi gwybod iddo am ei gynnydd. Dylai fod yn rôl y SMG i gysylltu'n rheolaidd â'r GSB. Fodd bynnag, ni ddylai'r GSB gymryd unrhyw rôl uniongyrchol wrth reoli'r ymchwiliad. Yr asiantaeth arweiniol fyddai'r Heddlu tra bo unrhyw ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal, fodd bynnag bydd unrhyw ymchwiliad anhroseddol yn cael ei gynnal gan gydlynwyr arweiniol a'i arwain gan asiantaethau partner ynghylch unrhyw faterion diogelu a chefnogi ehangach.

Am arweiniad pellach gweler <https://www.app.college.police.uk/app-content/major-investigation-and-public-protection/operation-hydrant/>

3. Atgyfeiriadau - Gweithio gydag Achosion Cymhleth o Gam-drin

Os oes amheuaeth o gam-drin cymhleth, dylai'r person sy'n cael yr atgyfeiriad hysbysu ei reolwr llinell ar unwaith.

Os oes unrhyw amheuaeth bod unrhyw reolwyr a gyflogir ar hyn o bryd gan asiantaeth Gofal Cymdeithasol yn gysylltiedig, neu'n aelod o'r Heddlu, dylid cyfeirio'r mater at uwch reolwr a'r Person Diogelu Dynodedig (DSP) yn unol â Gweithdrefn GSB. [Adran 5, \(honiadau yn erbyn ymarferwyr a'r rhai mewn sefyllfa o ymddiriedaeth\) Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019](#)

Mae cyngor pellach ar gael gan uwch reolwyr. Os bydd rheolwyr yn cytuno bod yr atgyfeiriad yn gyfystyr â honiad o achos cymhleth o gam-drin, dylid hysbysu'r uwch Reolwr Diogelu a'r Ditectif Arolygydd ac ymgynghori â nhw.

Cynhelir ymchwiliadau i achosion cymhleth o gam-drin dan adain y GSB a dylid rhoi gwybod iddynt am ei gynnydd.

Mae'r protocol hwn yn disgrifio'r broses o ddigwyddiadau wrth ymateb i bryderon ynghylch achosion cymhleth o gam-drin posibl.

4. Cyfarfod Strategaeth Gychwynnol

Rhaid i'r cyfarfod strategaeth, a gadeirir gan uwch reolwr Gofal Cymdeithasol i Oedolion, ddigwydd o fewn 24 awr i dderbyn yr atgyfeiriad(au) a rhaid ei gofnodi'n ffurfiol.

Rhaid i'r drafodaeth strategaeth:

- asesu'r wybodaeth sy'n hysbys hyd yma.
- penderfynu pa wybodaeth bellach sydd ei hangen ar y cam hwn a threfnu i'w chasglu.
- sefydlu a oes achos cymhleth o gam-drin wedi'i ddatgelu, ac i ba raddau
- cynnal ymarfer mapio cychwynnol i bennu graddfa'r ymchwiliad a'r unigolion posibl dan sylw.
- ystyried cynllun ar gyfer yr ymchwiliad i'w gyflwyno i'r SMG, gan gynnwys goblygiadau adnoddau.
- ystyried unrhyw gamau diogelu sydd eu hangen ar unwaith.
- pwysleisio pwysigrwydd cyfrinachedd ac mai dim ond trwy'r sianeli cyfathrebu cytunedig y dylid rhannu gwybodaeth.

Gall y drafodaeth strategaeth hon gynnwys yr atgyfeiriwr, os yw'n briodol, cynghorydd cyfreithiol ac unrhyw un arall sy'n berthnasol i'r drafodaeth.

Ar ôl ystyried a thrafod y wybodaeth, rhaid i'r rhai sy'n ymwneud â'r drafodaeth, os yw'r amheuaeth yn cael ei chadarnhau yn eu barn nhw, drosglwyddo'r wybodaeth i Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant a'r Ditectif Brif Arolygydd, Uned Diogelu'r Cyhoedd (PPU) Gwent.

Os bydd y cyfarfod yn penderfynu bod yr achos yn ddigon cymhleth a dwys o ran adnoddau, yna dylid galw cyfarfod o'r Grŵp Rheoli Strategol.

Penderfynu a ddylid rhoi'r Protocol Achosion Cymhleth o Gam-drin Oedolion ar waith

Os yw'n ymddangos y gallai'r meini prawf ar gyfer cychwyn y protocol achosion cymhleth o gam-drin gael eu bodloni, rhaid i arweinydd diogelu'r awdurdod lleol a'r penderfynwr yn Uned Diogelu'r Cyhoedd drafod y pryderon a phenderfynu a ddylid rhoi'r protocol ar waith ai peidio. Yn y naill achos a'r llall, bydd arweinydd diogelu'r awdurdod lleol yn cadw cofnod o'r penderfyniad a wnaed a'r rhesymeg drosto.

Bydd yr arweinydd diogelu ym mhob asiantaeth yn sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu defnyddio, a bod staff yn cael y cymorth angenrheidiol. Bydd y penderfyniad a fydd y protocol hwn yn cael ei weithredu yn seiliedig ar a yw'r diffiniad yn cael ei fodloni.

Os nad yw'r achos yn cyrraedd y trothwy i'w ystyried o dan y protocol hwn, yna bydd yr ymchwiliad yn cael ei reoli o dan y trefniadau diogelu arferol. Pe bai gwybodaeth bellach sy'n awgrymu achos cymhleth o gam-drin yn dod i'r amlwg yn ystod ymchwiliad, yna mae angen ailystyried y protocol hwn.

Os yw maint y cymhlethdod yn aneglur, dylid trefnu cyfarfod arall i adolygu cynnydd yr achos.

5. Gweithwyr proffesiynol y mae angen eu hysbysu

Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud yn y cyfarfod strategaeth gychwynnol i gychwyn ymchwiliad cam-drin cymhleth, rhaid hysbysu'r Ditectif Brif Arolygydd, Uned Diogelu'r Cyhoedd a Phennaeth Gwasanaeth Diogelu i Ofal Cymdeithasol Oedolion (aelodau'r Grŵp Rheoli Strategol). Rhaid iddynt hysbysu Cadeirydd Bwrdd Diogelu Gwent, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth y cyfryngau/swyddfa'r wasg ac uwch reolwyr yr asiantaethau perthnasol e.e. person(au) diogelu dynodedig.

6. Cyfarfodydd Grŵp Rheoli Strategol dilynol

Aelodaeth Graidd y Grŵp Rheoli Strategol

- Arweinydd Diogelu'r Awdurdod Lleol y mae'r cam-drin honedig wedi digwydd yn ei ardal (Cadeirydd y Grŵp Rheoli Strategol fel arfer).
- Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yr Awdurdod Lleol.
- Pennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd Lleol.
- Ditectif Arolygydd yr Heddlu neu Dditectif Brif Arolygydd Uned Diogelu'r Cyhoedd Gwent.
- Rheolwr Comisiynu Awdurdodau Lleol.
- Rheolwr Comisiynu'r Bwrdd Iechyd Lleol.
- Arolygiaeth Gofal Cymru/Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
- Rheolwyr gwasanaeth Rheoli Gofal ar gyfer yr Awdurdod Lleol.
- Cynrychiolaeth o Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gwent.
- Asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill i'w cyfethol yn ôl yr angen.

Bydd gan yr Arweinydd Diogelu Oedolion dynodedig o'r Awdurdod Lleol y mae'r cam-drin honedig wedi digwydd ynddo gyfrifoldeb cydgysylltu cyffredinol drwy gydol yr ALSSI a bydd yn:

- Cydgysylltu ag Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gwent i drefnu cyfarfod Grŵp Rheoli Strategol cychwynnol o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'r penderfyniad i weithredu'r protocol hwn ac yna bydd angen cyfarfodydd rheolaidd, o leiaf bob chwe wythnos, i sicrhau cyfathrebu cadarn rhyngasiantaethol, cydgysylltu, ac adrodd ar gynnydd. Mae agenda awgrymedig ynghlwm fel Atodiad 1. Bydd gweinyddydd Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gwent yn cymryd ac yn dosbarthu cofnodion pob cyfarfod a bydd yn cadw cofnod canolog o'r holl gyfarfodydd sy'n ymwneud ag ALSSI.
- Gofyn i ymholiadau S.126 gael eu cynnal ac ystyried unrhyw bryderon rheoli a phroffesiynol Rhan 5. Nodi unrhyw rwystrau i gynnydd a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau adnoddau ychwanegol os oes angen.
- Gweithredu fel pwynt cyfathrebu canolog am yr ALSSI.
- Adrodd i'r Grŵp Cynllunio Busnes.
- Dylai'r Grŵp Rheoli Strategol gael ei gadeirio gan yr Arweinydd Diogelu Oedolion dynodedig o'r Awdurdod Lleol y mae'r cam-drin honedig wedi digwydd ynddo.

Mae templed ar gyfer Cylch Gorchwyl y Grŵp Rheoli Strategol ynghlwm fel Atodiad 2.

Rôl y Cydlynnydd

Rhaid dynodi unigolyn i fod yn gydlynnydd rhwng yr SMG a'r JIG, fel arfer Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu neu reolwr arweiniol Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Cyfrifoldeb y cydlynnydd yw sicrhau llif gwybodaeth berthnasol rhwng y grwpiau gweithredol a strategol a rheoli'r broses gyffredinol o fewn y Grŵp Rheoli Strategol.

Rôl y Grŵp Rheoli Strategol (SMG)

Rhaid i'r cyfarfod SMG ystyried ystod eang o faterion a chytuno ar gynllun sy'n cynnwys:

- Sut y gellir rhoi mesurau diogelu ar waith tra bod ymchwiliadau'n mynd rhagddynt.
- Penderfyniad ar raddfa'r ymchwiliad a'r staff sydd eu hangen ar gyfer Grŵp Ymchwilio ar y Cyd.
- Nifer a natur y pryderon sy'n hysbys eisoes a sut mae'r achosion hynny wedi cael eu rheoli, ac yn parhau i gael eu rheoli.
- A oes oedolion eraill mewn perygl a all hefyd fod yn profi cam-drin neu mewn perygl o gael eu cam-drin a sut i reoli unrhyw fudd cyhoeddus ehangach.
- Pa asiantaeth fydd yn gyfrifol am gysylltu â'r perthynas agosaf, Atwrneiaeth Arhosol a/neu aelodau eraill o'r teulu/eiriolwyr unwaith y bydd y grŵp wedi penderfynu beth sy'n briodol i'w rannu yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).
- Ystyried unrhyw faterion trawsffiniol a chynllunio cyswllt priodol a rhannu adnoddau.

- Nodi ymarferwyr i reoli'r broses ymchwilio (ditectifs wedi'u hyfforddi'n briodol gan gynnwys uwch swyddogion ymchwilio a Rheolwr Gofal Cymdeithasol Oedolion / Rheolwr Gweithredol).
- Datblygu strategaeth gyfathrebu yn nodi pa wybodaeth y gellir ei rhannu, gyda phwy ac ar ba gam (dylai hyn hefyd gynnwys y trefniadau ar gyfer cyfathrebu brys y tu allan i oriau. Rhaid i gytundeb cyfrinachedd gael ei lofnodi gan yr SMG, y JIG a, lle bo'n briodol, unrhyw bartner dilynol dan sylw).
- Trefnu llety digonol, gan gynnwys ystafell digwyddiadau bwrpasol, lle bo modd, a chyfleusterau ar gyfer cyfweld a recordio cyfweiliadau.
- Trefniadau i staff meddygol gynnal asesiadau.
- Trefniadau ar gyfer staff gweinyddol digonol ac adnoddau technoleg gwybodaeth i gefnogi'r ymchwiliad.
- Cyngor cyfreithiol gan gynnwys ymgynghori â Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar gyfer achosion troseddol.
- Adnoddau digonol i sicrhau bod oedolyn/oedolion yn cael eu hamddiffyn rhag cam-drin pellach a bod eu lles yn parhau i fod yn hollbwysig (dylai hyn gynnwys gwasanaethau dydd priodol, lleoliadau seibiant neu breswyl, meddygol, gwasanaethau Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC), a therapiwtig, a gwasanaethau ymarferol).
- Ystyried anghenion therapiwtig oedolion.
- Digon o gefnogaeth, goruchwyliaeth a dadfriffio i'r staff dan sylw.
- Argaeledd cyngor arbenigol lle bo angen.
- Trefniadau cyswllt ar gyfer gwaith rhyngasiantaethol.
- Amserlenni ar gyfer camau'r ymchwiliad.
- Dyrannu tasgau penodol i bersonél sy'n ymwneud â'r ymchwiliad, ynghyd â chyfrifoldebau rheoli llinell.
- Rheoli cysylltiadau cyhoeddus a diddordeb y cyfryngau yn yr achos.
- Cymorth i dystion, os yw'n berthnasol.
- Rheoli effaith gymunedol.
- Polisi datgelu/rhannu gwybodaeth.
- Llinell gymorth i ddioddefwyr/linell gwybodaeth.
- Iawndal ariannol i ddioddefwyr.
- Strategaeth ymadael.
- Diogelu data a chadw a phenodi swyddog datgelu

Rhaid nodi aelod o'r Grŵp Rheoli Strategol i ddiweddarau'r Is-grŵp Adolygu Achos gyda datblygiadau a materion arwyddocaol.

Bydd y Grŵp Rheoli Strategol hefyd yn cytuno ar linellau cyfathrebu ac atebolwydd ar gyfer pob asiantaeth i Fwrdd Diogelu Gwent: bydd hyn yn cynnwys ystyried yr angen am ddatganiadau yn y cyfryngau a phroses uwchgyfeirio pe bai materion yn codi na all y Grŵp eu datrys. Bydd pob Grŵp Rheoli Strategol yn llunio cylch gorchwyl penodol ar gyfer yr ALSSI penodol, sy'n ymgorffori'r holl bwyntiau hyn a hefyd yn nodi amserlen gychwynnol y cytunwyd arni ar gyfer cyfarfodydd.

Rhaid i'r SMG wneud trefniadau i ymgynnull yn rheolaidd yn ystod yr ymchwiliad i:

- monitro cynnydd, ansawdd a chywirdeb yr ymchwiliad
- adolygu dangosyddion ar gyfer yr oedolion dan sylw
- adolygu'r strategaeth gyfathrebu

- ystyried gofynion adnoddau
- ystyried amseriad priodol terfynu'r ymchwiliad
- cynllunio cyfarfod dadfrifio gyda'r JIG i nodi gwersi a ddysgwyd.

Gellir ffurfio tîm penodol o Swyddogion Heddlu i ddelio ag ymholiad trawsffiniol, neu unrhyw bartneriaeth arall (Gofal Cymdeithasol, Iechyd, ac ati) i gysylltu â heddluoedd eraill, awdurdodau lleol, a chomisiynwyr iechyd ac ati.

Dylai'r SMG ymgynnull nes bod y CPS wedi gwneud penderfyniad cyhuddo a bod mesurau diogelu hirdymor priodol yn eu lle ar gyfer dioddefwyr.

Rhaid i'r SMG adrodd yn ysgrifenedig i'r Is-grŵp Adolygu Achosion, fel y gall y grŵp ystyried a ddylid cychwyn Adolygiad Ymarfer.

Dim ond ar ôl cytuno ar ymchwiliad achos cymhleth o gam-drin y bydd SMG yn cael ei gynnull, ac mewn achosion o'r fath, bydd rhyw fath o ymchwiliad troseddol bob amser. O ystyried hyn, yr Heddlu fydd yn gyfrifol am ddosbarthu a storio cofnodion SMG. Ochr yn ochr â chytuno ar gylch gorchwyl SMG, dylid cynnal trafodaeth i egluro'r trefniadau hyn i'r rhai dan sylw.

Dylid trefnu'r cofnodion yn y fformat a ganlyn:

- Amser, dyddiad, lleoliad y cyfarfod.
- Cylch gorchwyl.
- Pobl sy'n bresennol.
- Ymddiheuriadau.
- Manylion yr holl unigolion sy'n destun yr ymholiad (genogram).
- Ffeithiau ac amgylchiadau hysbys hyd yma.
- Camau gweithredu a nodwyd.
- Paramedrau ymchwilio.
- Materion adnoddau a rheolaeth.
- Materion yn ymwneud â'r cyfryngau.
- Amrywiol.
- Strategaeth ymadael.
- Dyddiad y cyfarfod nesaf.
- Dylid cofnodi penderfyniadau a rhesymu esboniadol yn y llyfr polisi, sef dogfen a ddefnyddir gan yr Uwch Swyddog Ymchwilio i gofnodi penderfyniadau strategol a thactegol, a fydd yn goruchwyllo'r ymchwiliad yn unol â pholisïau a phrotocolau'r Heddlu ar gyfer ymchwilio i droseddau difrifol a chymhleth.

Rhaid i'r SMG hysbysu Bwrdd Diogelu Gwent am ganlyniad yr ymchwiliad a'r ystyriaeth a roddwyd i'r angen am adolygiad ymarfer oedolion.

7. Grŵp Ymchwilio ar y Cyd (JIG)

Rôl y grŵp hwn yw cynnal ymchwiliad trylwyr a thryloyw a chyflawni gweithdrefnau diogelu a dylent gynnwys:

- Fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth a monitro'r cynnydd ymchwiliol

- Pennu strategaeth cyfweld dioddefwyr
- Diweddariadau ymchwiliol i SMG
- Diweddariadau adnoddau i SMG
- Darpariaethau cymorth cyson i ddioddefwyr a'u teuluoedd
- Darpariaethau cymorth ar gyfer staff y tîm ymchwilio
- Rhannu gwybodaeth ag asiantaethau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar SMG
- Cydymffurfio â phrotocol rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd
- Cychwyn y protocol hwn a gweithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau a osodwyd gan SMG

Dylai'r grŵp hwn a arweinir gan Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu, neu ei ddirprwy gynnwys cynrychiolydd o Ofal Cymdeithasol Plant, Addysg, Iechyd a gwasanaethau cyfreithiol yr Awdurdod Lleol. Dylid gwahodd asiantaethau eraill fel y bo'n briodol.

Bydd maint y grŵp yn dibynnu ar raddfa'r ymchwiliad. Gellir hefyd tynnu aelodaeth, yn ôl yr angen, o blith gweithwyr iechyd proffesiynol priodol, y CPS, Gwasanaethau Cyfreithiol, y Gwasanaeth Prawf a gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr.

Rhaid i unrhyw achos o dorri cyfrinachedd (bwriadol neu anfwriadol) gael ei adrodd ar unwaith i'r SMG fel y gallant fynd i'r afael â'r mater hwn a rheoli'r effaith wirioneddol neu bosibl ar yr ymchwiliad.

8. Grŵp Gweithredol

Bydd y Grŵp Gweithredol yn gyfrifol am:

- Cynllunio'r ymchwiliad cyffredinol, gan gynnwys gwirio cofnodion, casglu tystiolaeth, cynllunio, a chynnal cyfres o gyfweiliadau cydberthynol, ac unrhyw wyladwriaeth sydd ei hangen.
- Ystyried goblygiadau croesi ffiniau daearyddol.
- Cynnal cofnodion ysgrifenedig o gyfarfodydd strategaeth a gweithredol rheolaidd.
- Cynnal cyfarfodydd cynllunio ar gyfer darnau unigol o waith, e.e. cyfweiliad fideo o blentyn a/neu gamau i amddiffyn oedolyn.
- Casglu tystiolaeth arall gan gynnwys tystiolaeth ffforensig, cyfweiliadau â chamdrinwyr a thystion honedig, a thystiolaeth ategol arall. Cyfathrebu a chyswllt ag asiantaethau eraill ar sail angen gwybod. Ni ddylai fod unrhyw wroddi wrth strategaeth cyfathrebu presennol yr SMG heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr SMG.
- Cynnull cyfarfodydd rhyng-asiantaethol.
- Cydlynu ac amseru gwasanaethau therapiwtig.
- Diweddaru'r SMG yn rheolaidd ar y cynnydd a wnaed ac argymhell pryd i gau'r ymchwiliad.
- Ystyried trefniadau ar gyfer gwrandawriadau llys a chymorth i ddioddefwyr a'u teuluoedd.

Rhaid i unrhyw achos o dorri cyfrinachedd (bwriadol neu anfwriadol) gael ei adrodd ar unwaith i'r SMG fel y gallant fynd i'r afael â'r mater hwn a rheoli'r effaith gwirioneddol neu bosibl ar yr ymchwiliad.

Rhaid i aelodau'r tîm fod yn annibynnol ar unrhyw un o'r partïon sy'n destun yr ymchwiliad.

Dylai personél a secondiwyd i'r Tîm Gweithredol fod yn ymroddedig i'r ymchwiliad ac ni ddylai fod ganddynt unrhyw gyfrifoldeb arall.

Cyfathrebu â Darparwyr, Defnyddwyr Gwasanaeth a'u Teuluoedd/Eiriolwyr

Bydd cyfathrebu â darparwyr gofal yn digwydd drwy'r broses diogelu unigol a'r broses Uwchgyfeirio Pryderon. Bydd y Grŵp Rheoli Strategol yn ystyried ym mhob cyfarfod a oes angen unrhyw gyfathrebu ychwanegol gyda'r Darparwr.

Bydd defnyddwyr gwasanaeth unigol a'u teuluoedd neu eiriolwyr yn ganolog i'r ymchwiliad ar raddfa fawr. Byddant yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn ymchwiliadau a chanlyniadau i gyflawnwyr gan y Cydgysylltydd Arweiniol Diogelu (Rheolwr Arweiniol Penodedig) sydd wedi bod yn gyfrifol am reoli eu hachos.

9. Mynediad at gofnodion

Mae un o'r materion anoddaf mewn ymchwiliadau achosion cymhleth o gam-drin yn ymwneud â lleoli, defnyddio, rheoli a datgelu gwybodaeth ddogfennol sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Dylai'r tîm ymchwilio ystyried pa wybodaeth sydd ei hangen a chymryd camau i'w sicrhau o fewn pob asiantaeth.

Dylid hysbysu asiantaethau y dylent rannu ffeiliau yn unol â dyletswyddau statudol, gofyniad cyfreithiol, neu ddiogelu data, gan gynnwys gwybodaeth ar ffeiliau personol, ffeiliau personél, e-byst, cofnodion sefydliadau cyffredinol a chofrestrau.

Lle gallai gwybodaeth hanfodol fod wedi'i cholli, ei difrodi neu ei dinistrio, ystyriwch ddulliau eraill o gael gwybodaeth gan dystion a dioddefwyr hysbys neu bosibl. Cofnodwch ganfyddiadau ar gronfa ddata.

10. Rhannu gwybodaeth

Mae'r ymchwiliadau hyn yn dibynnu'n llym ar sicrhau bod gwybodaeth sensitif neu hynod gyfrinachol ar gael, gan gynnwys unrhyw wybodaeth sy'n hysbys am gyflawnwyr honedig a nodwyd yn yr ymchwiliad. Dylid cymhwyso egwyddorion Rhannu Gwybodaeth i bob ymchwiliad cam-drin cymhleth a dylai aelodau'r tîm fod yn gyfarwydd â'i ddarpariaethau.

Mae'r angen i gynnal uniondeb gwybodaeth a rennir yn hanfodol, a rhaid i'r holl staff ymchwilio fod yn ymwybodol o egwyddor a chymesuredd y GDPR a chydymffurfio ag ef. Dylid ystyried defnyddio cytundebau cyfrinachedd o ran unigolion a gyflogir i gynnal yr ymchwiliad.

Yn ogystal â'r materion sy'n ymwneud â mynediad at ffeiliau a rhannu gwybodaeth, rhaid ystyried yr angen i rannu gwybodaeth am unrhyw droseddwr hysbys neu a amheuir a nodwyd yn yr ymchwiliad.

Pryd bynnag y derbynnir cwyn mewn perthynas â chyflawnwr honedig, rhaid cynnal asesiad risg ar unwaith o ran pa risg gyfredol y gallai'r person hwnnw ei pheri i oedolion eraill, (pobl ddiamddiffyn).

Lle mae aelodau o'r tîm ymchwilio yn derbyn gwybodaeth o'r fath, dylid cyflwyno'r ffurflen dyletswydd i adrodd priodol ar gyfer mesurau diogelu amlasiantaethol, dylai hyn fod ar gyfer yr ardal lle mae'r dioddefwr/dioddefwyr, dioddefwyr posibl a throseddwyr a throseddwyr yn byw.

Ceir canllawiau manwl pellach yn y rhifyn hwn, ynghyd â chyngor ar ddatgelu deunydd yn: <https://www.app.college.police.uk/app-content/major-investigation-and-public-protection/child-abuse/complex-investigations> Am gyngor ac arweiniad pellach gweler: <https://www.app.college.police.uk/app-content/major-investigation-and-public-protection/child-sexual-exploitation/>

11. Croesi ffiniau daearyddol a gweithredol

Gellir cydnabod ar y cychwyn neu yn ystod yr ymchwiliad fod yna ddioddefwyr a throseddwyr a amheuir neu a allai fod mewn mwy nag un ardal ddaearyddol.

O'r cychwyn, yr Heddlu sy'n gyfrifol am reoli'r ymchwiliad yn yr ardal lle honnir bod y cam-drin wedi digwydd – lle honnir bod y cyflawnwr/cyflawnwyr honedig yn gweithredu – a bydd yn gwneud y cyswllt angenrheidiol ag ardaloedd eraill yr effeithir arnynt drwy'r SMG (oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, e.e. troseddau ar-lein neu herwgipio).

Unwaith y cydnabyddir bod yna ddioddefwyr tybiedig neu ddarpar ddioddefwyr y tu allan i Went, bydd y JIG yn penderfynu pa asiantaethau sy'n cael eu hysbysu a sut y cesglir tystiolaeth.

Dylai'r JIG cychwynnol a'r Tîm Gweithredol gynnal yr ymchwiliad ar ran yr ardaloedd daearyddol eraill.

Os bydd nifer y dioddefwyr y tu allan i ffiniau daearyddol y JIG gwreiddiol yn cynyddu i'r graddau na all ymateb, dylid cynnal trafodaethau ar gyfer JIG gyda'r Heddlu a Gofal Cymdeithasol yn yr ardal ddaearyddol newydd.

Mae'n hanfodol bod SMG ar y cyd i ddarparu cynllunio cyffredinol. Os oes angen cael mwy nag un JIG, rhaid cael cydweithio agos rhwng cydlynwyr a phrosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth lawn.

Yr Awdurdod Lleol sydd â'r cyfrifoldeb am yr achos cymhleth o gam-drin fyddai'r Awdurdod Lleol lle mae'r cam-drin yn digwydd.

Dylai uwch reolwr o bob maes ychwanegol ymuno â'r SMG i drafod a chytuno ar unrhyw oblygiadau o ran adnoddau.

12. Diwedd Ymchwiliad neu gyfarfod Grŵp Rheoli Strategol Terfynol

Bydd cyfarfod strategaeth ALSSI terfynol unwaith y bydd pob ymchwiliad (gan gynnwys troseddol) wedi dod i ben. Pwrpas y cyfarfod hwn fydd ystyried canlyniadau ymchwiliad troseddol a chanlyniadau ymchwiliad 126 ac ystyried a oes angen unrhyw gamau eraill. Bydd y cyfarfod hwn yn penderfynu a ellir cau'r ALSSI.

Er y bydd cynlluniau amddiffyn ar gyfer yr unigolion yr effeithir arnynt, efallai y bydd angen camau gweithredu eraill megis:

- Camau gweithredu aml-asiantaeth e.e., newidiadau mewn polisïau, gweithdrefnau, neu arferion.
- Camau gweithredu contractio a chomisiynu, trwy Uwchgyfeirio Pryderon neu gynlluniau gweithredu gwella gwasanaethau.
- Ystyried a oes angen Adolygiad Ymarfer Oedolion.
- Gweithredu parhaus gan y Rheoleiddiwr.
- Ymchwiliad heddlu pellach neu ymholiad 126 parhaus.

Bydd y cyfarfod hefyd yn gwerthuso'r broses drwy ystyried:

- Beth gafodd ei reoli'n llwyddiannus yn yr ymchwiliad hwn?
- Beth allem ni fod wedi'i wneud yn well a beth ddylid ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
- A wnaeth Protocol ALSSI helpu?
- A oes angen adolygu Protocol neu Gylch Gorchwyl y Grŵp Rheoli Strategol?
- A oes unrhyw faterion trawsffiniol neu unrhyw faterion lleol heb eu datrys y gellir eu datrys yn unig gan y Bwrdd Diogelu Oedolion?

Bydd y cyfarfod hwn hefyd yn cael ei gofnodi gan Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gwent a chynhyrchir adroddiad gwerthuso ar gyfer Bwrdd Diogelu Gwent. Rhennir yr adroddiad hwn ag ymarferwyr trwy Fforwm Ymarferwyr Aml-Asiantaeth (MAPF).

Rhaid cael strategaeth ymadael wedi'i diffinio'n glir nid yn unig mewn perthynas â chau ymchwiliad, ond hefyd mewn perthynas â dioddefwyr a thystion, y gallai fod angen cymorth parhaus arnynt ar ddiwedd unrhyw dreial neu ymchwiliad.

Mae angen i ymarferwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad yn ogystal â staff gweithredol eraill sydd wedi cadw gwasanaethau o ddydd i ddydd i redeg lle mae cydweithwyr wedi'u secondio i'r tîm ymchwilio, gael eu dadfriffio'n drylwyr.


Dylai'r SMG gael cyfarfod terfynol lle gellir rhannu gwybodaeth derfynol a dadfriffio. Dylid llunio adroddiad trosolwg a'i gyflwyno i Fwrdd Diogelu Gwent.

Rhaid manylu ar storio, diogelwch a chadw'r ffeiliau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad. Mae'n bosibl iawn y bydd angen mynediad at gofnodion o'r fath mewn perthynas ag unrhyw apeliadau parhaus, achosion sifil, neu geisiadau am iawndal. Rhaid i hyn gydymffurfio â Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu a GDPR.

Ar ddiwedd ymholiad/ymchwiliad, dylai'r SMG ystyried a ddylid cynnal gwerthusiad o'r ymchwiliad fel y gellir nodi'r gwersi a ddysgwyd. Bydd adolygiad o'r fath yn ategu unrhyw Adolygiad Ymarfer Achos Oedolion a allai fod yn gydamserol neu wedi'i gwblhau.

Atodiad 1

SIART LIF PROSES AR GYFER YMCHWILIADAU ACHOSION CYMHLETH O GAM-DRIN



Atodiad 2

TEMPLED ADRODDIAD CYNNYDD (I'w gwblhau gan y Grŵp Ymchwilio ar y Cyd i hysbysu'r Grŵp Uwch Reolwyr)

Crynodeb o'r Dystiolaeth - dylai hwn gynnwys matrices perthynas o bwy sydd wedi gwneud beth i bwy a beth yw'r berthynas, a gallai enghreifftiau gynnwys genogramau, siartiau I2, map eco, systemau a chysylltiadau teuluol.

Crynodeb o'r Cadarnhad

Dioddefwyr/Cyflawnwyr Ychwanegol a Nodwyd

Camau gweithredu a gymerwyd hyd yma a dyddiad cwblhau

Nodi'r camau nesaf a'r camau gweithredu i'w cymryd

Atodiad 3

TEMPLLED ADNABOD OEDOLYN SY'N PEDI PRYDER YN YR YMCHWILIAD

RHIF ADNABOD	ENW'R OEDOLYN A DYDDIAD GENI	ENW ARALL A DYDDIAD GENI RHIENI/GOFALWYR/ PERSON O BWYS	CYFEIRIAD CARTREF	CYSYLLTIADAU HYSBYS I'R CYFLAWNWYR HONEDIG	CAMAU GWEITHREDU A GYMERWYD I.A./S.126	NATUR Y DATGELIAD	ACHOS AR AGOR/AR GAU AC I BA DÎM

Grŵp Rheoli Strategol ar gyfer Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr

TEMPLED AGENDA

Datganiad Cyfrinachedd

Wrth lofnodi'r daflen presenoldeb, cytunodd pawb a oedd yn bresennol i gadw at y datganiad cyfrinachedd canlynol:

“Mae'r materion a drafodir yn gyfrinachol i aelodau'r cyfarfod a'r asiantaethau y maent yn eu cynrychioli. Dim ond er lles yr oedolion sy'n wynebu risg y cânt eu rhannu.

Dosberthir cofnodion y cyfarfod ar y ddealltwriaeth fanwl y byddant yn cael eu cadw'n gyfrinachol a'u storio'n ddiogel.

Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd angen sicrhau bod cofnodion y cyfarfod ar gael i'r llysoedd sifil a throseddol, cyfreithwyr, seiciatryddion, gweithwyr cymdeithasol Awdurdod Lleol arall neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofalu am oedolion sy'n wynebu risg”.

1. Datganiad Cyfrinachedd
2. Croeso ac Ymddiheuriadau
3. Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth
4. Trosolwg o'r achos i'w ystyried:
 - a. Nifer a natur y pryderon sydd eisoes yn hysbys a threfniadau rheoli.
 - b. Nodi oedolion eraill sydd mewn perygl a chytuno sut y gellir rheoli hyn.
 - c. Cytuno ar fesurau diogelu i'w rhoi ar waith.
5. Amserlenni, cerrig milltir a threfniadau adrodd
6. Trefniadau cyfathrebu:
 - a. Y Cyfryngau
 - b. Darparwyr
 - c. Defnyddwyr Gwasanaeth, Teulu, Eiriolwyr
7. Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol

Atodiad 5 - Cylch Gorchwyl ar gyfer Grŵp Rheoli Strategol ALSSI

CYLCH GORCHWYL

Grŵp Rheoli Strategol ar gyfer Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr

1. CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd y ddogfen hon i gefnogi swyddogaeth y Grŵp Rheoli Strategol a sefydlwyd o dan Brotocol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer Rheoli Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr (ALSSI). Bydd y Grŵp Rheoli Strategol yn datblygu Cylch Gorchwyl pwrpasol ar gyfer pob ALSSI sy'n benodol i amgylchiadau a gofynion yr ymchwiliad hwnnw.

2. NOD Y GRŴP RHEOLI STRATEGOL

Nod cyffredinol y Grŵp yw sicrhau bod ymchwiliadau ar raddfa fawr i honiadau o gam-drin neu esgeuluso oedolion yn cael eu cydgysylltu a'u bod yn cynnwys yr holl asiantaethau a swyddogion perthnasol sydd â digon o awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran eu hasiantaeth.

3. AMCANION

- a. Sicrhau bod cyfrifoldeb pob asiantaeth mewn ymchwiliad ar raddfa fawr yn glir ac nad oes unrhyw ddyblygu swyddogaeth na bylchau yn y broses.
- b. Sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn cymryd rhan ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chanlyniadau'r ymchwiliad.
- c. Rheoli llif gwybodaeth rhwng asiantaethau.
- ch. Rheoli cyfathrebu ag oedolion sy'n wynebu risg, eu teuluoedd a'r cyhoedd ehangach.
- d. Sicrhau bod Uwch Swyddogion yr Heddlu, y Cyngor a Swyddogion y Bwrdd Iechyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, ynghyd ag Aelodau'r Cyngor a'r Bwrdd.
- dd. Sicrhau bod adnoddau ar gael o fewn pob asiantaeth i sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu cwblhau mewn modd amserol.
- e. Adolygu a gwerthuso cwrs yr ALSSI a dysgu gwersi.

4. ATEBOLRWYDD

Bydd pob gweithiwr proffesiynol a enwebir i fynychu a chymryd rhan yn y Grŵp Rheoli Strategol yn atebol i'w asiantaeth eu hunain ac i Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

5. AELODAETH

Fel y nodir yn y Protocol.

6. AMLDER CYFARFODYDD

Unwaith y bydd y Protocol Ymchwiliadau Diogelu Oedolion ar Raddfa Fawr wedi'i sbarduno, cynhelir cyfarfod cyntaf y Grŵp Rheoli Strategol o fewn 2 ddiwrnod gwaith. Ar ôl hyn, bydd y Grŵp yn cyfarfod o leiaf bob 6-8 wythnos ac yn amlach os oes angen. Bydd hyn yn parhau nes bydd y Grŵp yn penderfynu cau'r ALSSI. Ar ddiwedd y cyfnod, bydd y broses yn cael ei gwerthuso, a bydd y Cadeirydd yn llunio adroddiad ar gyfer y Bwrdd Diogelu.

7. ADOLYGIAD

Adolygir y cylch gorchwyl hwn ar ôl i bob ALSSI ddod i ben neu bob blwyddyn.